

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4) 2021.

**Eluned Morgan AS**  
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

6 Awst 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 ("y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

### *Dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod. Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn mewn cysylltiad â gwledydd ac ychwanegiad at ddigwyddiadau penodedig sy'n ddarostyngedig i drefn profi bwrpasol i ddod i rym cyn gynted â phosibl ac i barhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol. O ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, yn enwedig i'r gwledydd hynny lle mae'r sefyllfa wedi gwaethygu ac maent wedi symud i'r "rhestr goch", ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Mae angen gwneud y newidiadau o ran manyleb dechnegol y profion ar ôl cyrraedd cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau cysondeb â diwygiadau cyfatebol sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr ar 23 Awst a darparu cyfnod arweiniol sy'n ofynnol i'w weithredu gan y labordai profi.

### *Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyrraeth ar y sail ei bod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

Mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. I'r graddau y gallant o bosibl gyffwrdd ag unrhyw hawliau o'r fath, mae'r Llywodraeth o'r farn bod yr ymyrraeth yn fach iawn ac y gellir ei chyfiawnhau fel ymyrraeth angenrheidiol a chymesur i gyflawni nod dilys. Nid yw'r diwygiadau i'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr a wneir gan y Rheoliadau hyn yn newid y ffordd y maent yn cyffwrdd â hawliau unigol.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng

Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau hyn drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memoranda Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

#### 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol drwy wneud y newidiadau canlynol:

- Mae **Georgia, Mayotte, Mecsico a Reunion** yn cael eu hychwanegu at y "rhestr goch" o wledydd a thiriogaethau
- Mae **Bahrain, India, Qatar a'r Emiraethau Arabaidd Unedig** yn cael eu tynnu oddi ar y "rhestr goch" o wledydd a thiriogaethau ac yn cael eu hychwanegu at y "rhestr oren" o wledydd a thiriogaethau
- Mae **Awstria, yr Almaen, Latfia, Norwy, Rwmania, Slofacia a Slofenia** yn cael eu tynnu oddi ar y "rhestr oren" a'u hychwanegu at y "rhestr werdd" o wledydd a thiriogaethau
- Bydd pobl sydd wedi bod yn **Ffrainc Fetropolitanaid** (tir mawr Ffrainc gan gynnwys ynys Corsica), neu a deithiodd drwyddi, yn cael eu hesemptio rhag y gofynion ynysu a chymryd prawf PCR ar Ddiwrnod 8 os ydynt wedi cael eu brechu'n llawn yn rhaglenni brechu'r DU / UE / UDA. Bydd hynny'n gymwys hefyd i blant dan 18 oed a phobl sydd wedi cymryd rhan mewn treialon brechu
- Mae R&A – Cwpan Curtis yn cael ei ychwanegu at y rhestr o ddiwyddiadau penodedig sy'n ddarostyngedig i drefn brofi bwrpasol
- Newidiadau i'r manylebau technegol ar gyfer profion ar ôl cyrraedd.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i reoliad 5C o'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yn sgil y diwygiad i reoliad 2A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i estyn yr esemptiadau yn rheoliad 2A i bersonau sy'n teithio o Ffrainc Fetropolitanaid.

#### 5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

#### 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.